

## Cwrs Sylfaenol Ceredigion Uned Un Deg Chwech

### Siarad ar y ffôn

Ydy Sandra (y)na? *Is Sandra there?*      Ydy / Na(c) (y)dy  
 Ydy Ffred (y)na?  
 Ydy'r prifathro (y)na?

**Pwy sy'n siarad?** *Pwy sy'n siarad?*

Ffred sy (y)ma      *It's Ffred here*  
 Sandra sy (y)ma  
 Ffred sy'n siarad  
 Sandra sy'n siarad

Dyw e ddim (y)ma ar hyn o bryd      *He's not here at the moment*  
 Dyw e ddim ar gael ar hyn o bryd  
 Mae hi'n brysur ar hyn o bryd  
 (Doe)s neb (y)ma ar hyn o bryd


Alla i siarad â Ffred?      *Can I speak with Ffred?*  
 Alla i gael gair â Ffred?

Alla i'ch helpu chi?      *Can I help you?*  
 Alla i gymryd neges?

**Gallwch / Na allwch**      *Yes you can / No you can't*  
**Mae'n flin 'da fi**

Allwch chi roi neges iddo fe?      *Can you give him a message?*  
 Allwch chi roi neges iddi hi?  
 Allwch chi ofyn iddi hi ffonio'n ôl?  
 Allwch chi ofyn iddo fe ffonio'n ôl?  
**Galla / Na alla, mae'n flin 'da fi**

Sut mae? Bendigeidfran sy'n siarad.  
Dyw Ffred ddim 'ma ar hyn o bryd.  
Gadewch neges ar ôl y tôn, bow wow!



<u>Deialog</u>	(Mae'r ffôn yn canu)
Rhywun Arall:	<b>Aberystwyth 612583</b>
Ffred:	<b>Ydy Sandra (y)na, os gwelwch chi'n dda?</b>
Rhywun Arall:	<b>Na(c) (y)dy. Mae hi'n brysur ar hyn o bryd.</b>
Ffred:	<b>(D)w i'n gweld. Allwch chi ofyn iddi hi ffonio Ffred?</b>
Rhywun Arall:	<b>Galla, wrth gwrs. Beth yw'r rhif?</b>
Ffred:	<b>Aberystwyth 234689</b>
.....	
Peiriant Ateb:	<b>Aberystwyth 234689. Ffred Morris sy'n siarad. Does neb yma ar hyn o bryd. Os (d)ych chi'n moyn gadael neges, siaradwch ar ôl y tôn.</b>
Sandra:	<b>Sandra sy (y)ma. Diolch am ffonio y bore (y)ma. Elli di alw heno? Mae newyddion da 'da fi.</b>

### Geirfa

prifathro	- headmaster
rhif	- number
gair	- word
cymryd (cymer-)	- to take
neges (b)	- message
gofyn (gofynn-) (i)	- to ask
rhif	- number
gadael (gadaw-)	- to leave
galw	- to call
newyddion	- news
peiriant	- machine
ateb	- to answer
ar gael	- available
yn ôl	- back

**Gwaith Cartre  
Uned 16**

*Gorffennwch:*

1. \_\_\_\_\_ Sandra yna?
2. Ydy \_\_\_\_\_ prifathro yna?
3. Pwy \_\_\_\_\_ siarad?
4. Ffred \_\_\_\_\_ yma.
5. \_\_\_\_\_ e yma ar \_\_\_\_\_ o bryd
6. \_\_\_\_\_ neb yma.
7. Alla i \_\_\_\_\_ neges?
8. Mae newyddion da \_\_\_\_\_ fi.

*Gorffennwch y Ddeialog:*

- A .....
- B. Nac ydy. Dyw e ddim yn y gwaith y bore 'ma.
- A. ....
- B. Gallwch. Bydd e'n ôl y prynhawn 'ma.
- A. ....
- B. Ar ôl dau o'r gloch.
- A. ....
- B. Croeso, pob hwyl.

*Cyfieithwch:*

1. Thanks for calling.
2. Is Mair there, please?
3. Can I help you?
4. She isn't here at present
5. Who is speaking?
6. I've got good news
7. Can you give him a message?
8. There's nobody here, I'm sorry.

***Pwyntiau i'w cofio:***

1. 'Gallu' (to be able to / can) is often used to form a question - 'Can I ..?' 'Can you ..?' Remember the TM at the very beginning of a question.

***Alla i ..?***

***Elli di ..?***

***Allith e / hi ..?***

***Allwn ni ..?***

***Allwch chi ..?***

***Allan nhw ..?***

2. Affirmative answers to questions do not mutate, e.e.

'Alla i fynd?' Gallwch